




ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflwyniad i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth



Beth yw'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth?

Mae safonau proffesiynol yn disgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu ymarfer rhagorol ac yn cefnogi twf proffesiynol. Mae'r pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar y pum elfen hanfodol o waith pob athro ac athrawes.

Y safon **Addysgeg** effeithiol... mae addysgu a dysgu'n hollbwysig

Mae'r athro yn sicrhau'n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu'n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben ar gyfer dygwyr a sicrhau'r gorau ar eu cyfer o ran safonau, lles a chynnydd.

Y safon **Cydweithredu**... gan sicrhau y caiff addysgeg effeithiol ei ledaenu

Mae'r athro yn manteisio ar gyfleoedd i gydwethio mewn ffordd gynhyrchiol â'r holl bartneriaid ym maes dysgu er mwyn cynyddu effeithiolrwydd proffesiynol.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn creu amodau sy'n sicrhau bod pawb yn fodlon helpu ei gilydd a chydweithio'n effeithiol o fewn a thu hwnt i'r ysgol i ledaenu addysgeg effeithiol.



Y safon **Arweinyddiaeth**... helpu i gynyddu addysgeg effeithiol

Mae'r athro yn arwain ym mhob maes ymarfer proffesiynol er mwyn cefnogi ymdrechion pobl eraill yn yr ysgol a thu allan iddi i wireddu uchelgais addysgol Cymru.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn gweithio mewn ffordd ddeallus i sicrhau cysondeb, eglurder ac ymwybiant a rennir i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgeg, dygwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach.

Y safon **Arloesi**... datblygu addysgeg

Mae'r athro yn flaengar gan ddatblygu technegau a dulliau a realir ac a fesurir i wella deilliannau addysgeg.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn sicrhau amodau cadarnhaol ar gyfer arloesi cydlynol y gellir ei reali, a deilliannau sy'n cael eu gwerthuso, eu dosbarthu a'u rhoi ar waith.

Y safon **Dysgu Proffesiynol**... datblygu addysgeg ymhellach

Mae'r athro yn cynyddu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth yn gyson a gall ddangos sut mae myfyrwr a bod yn barod i gael ei herio a'i gefnogi yn gallu cyfrannu at ddygwyr proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol.

Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn ysogoi dyhead am ddygwyr proffesiynol sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n cael effaith ar addysgeg ac sy'n cynnal datblygiad proffesiynol ar draws cymuned sy'n dysgu, yn yr ysgol a thu hwnt iddi.

Lawlwythwch y PDF rhyngweithiol i archwilio'r safonau proffesiynol mewn mwy o fanylder.

dysgu.llyw.cymru/safonauproffesiynol

I gyd-fynd â'r safonau proffesiynol datblygwyd gwerthoedd ac ymagweddau cyffredinol sy'n annog athrawon i fod y gorau y gallan nhw fod.



Sut mae'r safonau proffesiynol yn effeithio arnaf i?

Caiff pob safon proffesiynol ei rannu'n elfennau gyda disgrifyddion sy'n dangos sut y gallai'r safon proffesiynol fod yn berthnasol i waith ymarferydd, gan ddibynnu ar ble mae'r ymarferydd yn ei rôl a'i yrfa.

Athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso (ANGau)

Mae'r disgrifyddion yn nodi'r deilliannau mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant ac ANGau eu cyflawni a chânt eu defnyddio wrth eu hasesu er mwyn iddyn nhw ymuno â'r proffesiwn.

Athrawon ac arweinwyr presennol

Bydd y mwyafrif o athrawon ac arweinwyr yn defnyddio'r pum safon proffesiynol i fyfrio ar eu harfer. Os oes angen, gall ymarferwyr archwilio'r disgrifyddion, sydd yn enghreifftio'r safonau proffesiynol mewn mwy o fanylder.

Mae'r disgrifyddion hefyd yn cynnwys lefel uchelgeisiol sy'n cynnig ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa.

Addysgeg

Mireinio addysgu... tuag at arferion effeithiol iawn a pharhaus

ADDYSGU

Gwahaniaethu

Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:
Mae gwahaniaethu yn hysbysu iawn i'r graddau lle mae'r dysgwyr yn cydabwblu pam mae angen iddynt gael eu hymestyn neu eu cynorthwyo ac yn cynrydd rhan yn y gwaith a gynluno profiad dysgu.

Disgrifydd ymestyn:
Mae deunyddiau a phroffadau dysgu'n cael eu defnyddio i ddarparu her brodorol i bob dysgwyr.

Disgrifydd SAC:
Mae'r atro'n aroddargos gwybodaeth am, ymglyd â deallwriaeth a phroffad o, ddisgrifyddu uchel ac arferion effeithiol i ddilwally argraffu yn holl iddygwy, waith beith fo'u gwahalon argraffu.

PDF

Cydwethredu

ROLAU ARWEINYDDOL FFURFIOL

Gweithio'n gynhyrciol gydag asiantaethau allanol

Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus:
Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn hyrwyddo cydwethredu parhospol a gweithredu ffurfiol gydag asiantaethau allanol, sef gweithredu addysg proffesiynol email, ar agweddau cyffwrdd ac drefnu dysgu a dulliau gweithredu arhau.

Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol:
Marddeir ar gyfnewid i alluogi a chynorthwyo cydwethredu i weithio gydag asiantaethau allanol er budd iddygwy.

PDF

Enghreifftiau o ddisgrifyddion o'r PDF rhyngweithiol

Mae'r safonau proffesiynol newydd yn cyd-redeg â:

diwygiadau
yn addysg
gychwynnol
athrawon
(AGA)

fframwaith
cymwysterau
sy'n datblygu

yr Academi
Arweinyddiaeth
Addysgol
Genedlaethol.

Mae'r safonau proffesiynol newydd yn cefnogi ymarferwyr i ymdrechu am arferion rhagorol parhaus o addysg gychwynnol i arweinyddiaeth ysgol.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn cynnal y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) a ddylai gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r safonau proffesiynol fel offeryn i gefnogi dysgu proffesiynol.

Mae'r PDP yn symudol a gall fynd gyda chi o swydd i swydd neu o ysgol i ysgol, cyn belled â'ch bod wedi cofrestru gyda'r CGA o hyd.

Llinell amser y safonau proffesiynol

<ul style="list-style-type: none">• Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion.• Athrawon newydd gymhwyso sy'n cychwyn ar gyfnod ymsefydlu yn symud at y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.	O fis Medi 2017
<ul style="list-style-type: none">• Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn weithredol ar gyfer athrawon ac arweinwyr presennol.• Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar gael i'w defnyddio mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon.• Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion.	Erbyn Medi 2018
<ul style="list-style-type: none">• Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn gymwys i holl raglenni newydd addysg gychwynnol athrawon.	Erbyn Medi 2019

Am wybodaeth bellach ewch i dysgu.llyw.cymru/safonauproffesiynol neu anfonwch ebost at professionalstandardsreview@llyw.cymru